

Cais i gofrestru swyddog plaid newydd yn lle un arall

Nodiadau esboniadol ar lenwi ffurflen RP4

Noder y bydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen ar gyfer pob swyddog y penodir rhywun arall yn ei le.

Dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio i gofrestru swyddog plaid newydd yn lle un arall. Mae hyn ond yn gymwys i rolau swyddogion sydd eisoes wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol, h.y.

- arweinydd;
- swyddog enwebu;
- trysorydd;
- swyddog ymgyrchu;
- unrhyw swyddog arall sydd wedi'i gofrestru â'r Comisiwn ar hyn o bryd (e.e., ysgrifennydd).

Wrth gofrestru swyddogion newydd, noder bod yn rhaid i bleidiau sicrhau bod ganddynt o leiaf ddau unigolyn gwahanol wedi'u cofrestru'n swyddogion plaid.

Pwysig: rhaid i drysorydd y blaid roi gwybod i'r Comisiwn am newid o ran swyddogion **o fewn 14 diwrnod** i'r newid hwnnw.

Noder y dylid rhoi gwybod i'r Comisiwn am newidiadau i swyddogion unedau cyfrifyddu gan ddefnyddio ffurflen RP3. Mae pob un o'r nodiadau canlynol yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar Ffurflen RP4.

1. Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw'r blaid gofrestredig a'i rhif cyfeirnod.

2. Datganiad a llofnod

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru'n drysorydd y blaid ar hyn o bryd (h.y., yr unigolyn a gofrestrwyd yn drysorydd y blaid cyn i unrhyw swyddogion newydd gael eu cofrestru yn lle rhai eraill).

Os yw'r trysorydd cofrestredig wedi marw, neu os yw ei swydd wedi cael ei therfynu am unrhyw reswm arall, yna dylai'r person sy'n gweithredu fel trysorydd y blaid ar hyn o bryd lofnodi'r ffurflen, sef:

- arweinydd y blaid;
- swyddog enwebu'r blaid (lle bo'r un unigolyn yn arweinydd ac yn drysorydd y blaid);
- un o swyddogion eraill y blaid (lle bo'r un unigolyn yn arweinydd, yn swyddog enwebu ac yn drysorydd y blaid).

Bydd hyn yn gymwys yn benodol os ydych yn cyflwyno'r ffurflen i gofrestru eich trysorydd newydd.

Os yw'r trysorydd cofrestredig wedi ymddiswyddo neu mae ei swydd wedi cael ei therfynu, mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth yn ogystal â'r ffurflen – er enghraifft llythyr ymddiswyddo, neu gofnodion o gyfarfod lle yr ymddiswyddodd y trysorydd. Dylech roi tic yn y blwch i ddangos eich bod wedi cynnwys tystiolaeth gyda'ch cais.

3. Manylion y swyddog i'w gofrestru

Yn yr adran hon, nodwch enw llawn a chyfeiriad cartref yr unigolyn sydd i'w gofrestru'n swyddog i'r blaid (ni chaiff cyfeiriad y swyddog ei gynnwys ar gofnod cofrestr y blaid). Dylid hefyd nodi pa swydd y bydd y swyddog yn ei dal.

Dylai'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan yr unigolyn sydd i'w gofrestru'n swyddog newydd i'r blaid.

4. Llofnodion

Dylai'r adran hon gael ei llofnodi gan arweinydd, swyddog enwebu a thrysorydd cofrestredig y blaid. Os mai'r un unigolyn sy'n dal y tair swydd hyn, dylai'r ffurflen gael ei llofnodi gan un o swyddogion cofrestredig eraill y blaid hefyd.

Os bydd un o'r swyddogion cofrestredig yn methu â llofnodi'r ffurflen, rhaid i un o swyddogion ychwanegol y blaid lofnodi'r ffurflen yn lle hynny, gan ddatgan ei fod wedi'i awdurdodi i'w llofnodi yn absenoldeb y swyddog cofrestredig ac egluro pam nad yw'r swyddog cofrestredig yn gallu llofnodi'r ffurflen.

Os yw trysorydd cofrestredig y blaid wedi marw, neu os yw ei swydd wedi cael ei therfynu am unrhyw reswm arall, yna dylai'r person sy'n gweithredu fel trysorydd y blaid ar hyn o bryd lofnodi'r ffurflen. Gweler adran 2 o'r nodiadau hyn.

Dylid dychwelyd ffurflen RP4 i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ
Ffôn: 0333 103 1928

E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk

Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Pwysig: wrth ymdrin â cheisiadau, mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymwybodol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ffurflen RP4 a nodiadau esboniadol Cais i gofrestru swyddog plaid newydd yn lle un arall

Cais i gofrestru swyddog plaid newydd yn lle un arall

Adran 1 Manylion plaid gofrestredig

Enw plaid

Cyfeirnod y
plaid

Adran 2 Datganiad a llofnod

Hoffwn hysbysu'r Comisiwn Etholiadol o'r newidiadau canlynol i fanylion cofrestredig y plaid uchod, yn unol ag adran 31 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (PPERA) 2000.

I'w lofnodi gan y trysorydd cofrestredig presennol

Llofnod

Enw wedi'i
brintio

Dyddiad

Neu, fel arall, os yw'r trysorydd wedi marw neu os yw ei swydd wedi cael ei therfynu am unrhyw reswm arall, dylai'r swyddog cofrestredig sy'n cyflawni rôl y trysorydd lofnodi

Llofnod

Tystiolaeth
wedi'i
darparu

Enw wedi'i
brintio

Dyddiad

Ar hyn o
bryd wedi
cofrestru fel

Arweinydd

Swyddog enwebu

Swyddog
arall

Adran 3 Manylion y swyddog i'w gofrestru

Swydd yn y blaid

Enw llawn

Cyfeiriad

Tref

Sir

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Datganaf fy mod yn derbyn swydd

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad

Adran 4 Llofnodion

Arweinydd cofrestredig y blaid

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad

Swyddog enwebu cofrestredig

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad

Trysorydd cofrestredig

Llofnodwyd

Enw
wedi'i brintio

Dyddiad

Swyddog arall (os yw'n gymwys)

Rwyf yn datgan fy mod wedi cael fy
awdurdodi i lofnodi ar ran

(enw)

sef

cofrestredig y
blaid
(ei swydd yn y
blaid)

sy'n methu â llofnodi'r ffurflen hon
oherwydd:

(rhowch y
rheswm)

Llofnodwyd

Enw
wedi'i brintio

Dyddiad

Swydd

Datganiad preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@electoralcommission.org.uk.

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.